



Arbenigwr hen bethau ar y teledu yn helpu i werthu Gogledd Cymru



llun: eyeimagery



adventure



attractions



short breaks



gardens




golf



moviemap



walking



walled towns



giants



events



ambassadors



Arbenigwr hen bethau ar y teledu yn helpu i werthu Gogledd Cymru

Mae'r arbenigwr hen bethau Adam Partridge, un o sêr y rhaglen boblogaidd Flog It! ar y teledu, yn wynebu her newydd – gwerthu Gogledd Cymru i ymwelwyr.

Mae Adam yn gweithio gyda Phartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru ar ymgyrch newydd i ddenu grwpiau, bysiau moethus a llongau mordaith i'r rhanbarth.

Bydd yn rhoi areithiau mewn ciniawau ac yn tywys ymwelwyr ar deithiau o gwmpas tai hanesyddol, gan fwrw golwg arbenigol ar yr hen bethau sydd yno.

Mae'r ymgyrch yn rhan o hwb marchnata mawr i ddathlu cewri Gogledd Cymru.

Wrth wraidd yr ymgyrch mae cewri diwylliant, hanes a natur neu gewri a wnaed gan ddyn fel Hafod Eryri ar gopa'r Wyddfa, sydd wedi ennill gwobrau, a Thraphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte.

Paratowyd llyfryn lliwgar ac mae'r wefan www.groupsnorthwales.co.uk wedi'i diweddarau a'i gwella.

Y gobaith yw y bydd yr ymgyrch yn cynhyrchu rhyw £500,000 mewn gwariant ychwanegol gan ymwelwyr.

Mae Adam, sy'n rhedeg ei dŷ ocsiwn ei hun yn ardal Macclesfield, wedi bod yn ymddangos ar y teledu yn rheolaidd ers 12 mlynedd.

Mae wedi gweithio ar Cash in the Attic a Bargain Hunt, ac ymunodd â thîm Flog It! 10 mlynedd yn ôl.

Meddai Adam: "Yn aml iawn mae'r stori, neu

stori'r perchennog, yn fwy diddorol na'r eitem ei hun.

"Mae yna lu o raglenni hen bethau er ar y teledu ar hyn o bryd sy'n dangos potensial yr hyn rydym yn ei wneud yng Ngogledd Cymru.

"Rwy'n edrych ymlaen yn arw at fy swydd newydd a byddaf yn gallu cynnig fy sylwadau wrth i ni deithio o amgylch y tai hanesyddol.

"Mae Gogledd Cymru yn eithriadol o hardd. Rwy'n gyfarwydd â'r holl brif drefi felly dylai fod



O'r chwith, Fiona Gresty, Twristiaeth Gogledd Cymru, yr arbenigwr hen bethau Adam Partridge a Carole Startin, Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru.

yn gyffrous dros ben."

Twristiaeth Gogledd Cymru sydd wedi paratoi'r llyfryn ar gyfer y Bartneriaeth Twristiaeth.

Meddai'r Rheolwr Marchnata, Fiona Gresty:

"Mae llyfryn eleni'n debycach i gylchgrawn sy'n cynnwys erthyglau i hudo'r darlennydd i'r ardal.

"Rwyf wrth fy modd fod rhywun mor amlwg ag Adam yn cymryd rhan oherwydd mae hynny'n rhoi hygrededd i ni fel cyrchfan i bobl sy'n ymddiddori mewn hen bethau."

Meddai Carole Startin, Cyfarwyddwr Marchnata'r Bartneriaeth Twristiaeth: "Mae hon yn ymgyrch bwysig oherwydd ei bod yn targedu'r fasnach deithio'n uniongyrchol.

"Cyflwyno lluo o syniadau newydd am y math o bethau sydd gennym i'w cynnig yng Ngogledd Cymru yw'r syniad.

"Os nad ydyn nhw wedi bod i Ogledd Cymru rwy'n credu y dylen nhw ddod, ac os ydyn nhw wedi bod yma o'r blaen yna gobeithio ein bod yn rhoi ychydig o syniadau newydd ffres iddyn nhw am lefydd i fynd.

"Cytunodd Adam Partridge i gymryd rhan am ein bod yn chwilio am wibdeithiau newydd ar y lan i deithwyr y llongau mordaith sy'n docio yng Nghaergybi.

"Gan ei fod yn berchen ar ei dŷ ocsiwn ei hun mae gan Adam wybodaeth eang ac eclecticig, yn hytrach na'i fod yn arbenigo mewn un maes cyfyng.

"Mae casglu hen bethau yn dod yn fwyfwy poblogaidd fel adloniant yn sgil y myrdd o raglenni teledu ar y pwnc a'r ffaith fod pobl sy'n chwilio am fargen yn targedu'r sêls cist car a'r

siopau elusen dirifedi."

Am fwy o wybodaeth am yr hyn sydd ar gael ewch i: www.groupsnorthwales.co.uk neu ffoniwch 01492 539064.

groups north wales
01492 531 731

- > PACKAGES & TOURS
- > HOTELS
- > ATTRACTIONS
- > EVENTS, CHOIRS & FESTIVALS
- > SERVICE PROVIDERS
- > MAP & TRAVEL INFORMATION
- > MORE INFO
- > CONTACT US

A Giant Destination

If you've never been to North Wales before. Why not? This region's perfect for groups large and small. Trips brimming with beauty and variety.

giant blooms and bricks

Bodnant is big. Big in size; there's 80 acres of it. The tallest Giant Redwood in the country is here at 47 metres high. Its five Italianate terraces, overlooking a wooded valley - created by generations of Aberconways and now looked after by the National Trust - are big on colour too. From mid May to early June, the 55 metre-long laburnum arch drips with gold. One man working flat out to keep Bodnant at the top of the gardens league is Troy-Scott Smith.

More Info

gourmet's choice

Chris Neaum - Head Chef
with England railway

"I've been fortunate to work in a Michelin star restaurant and I'll only accept the best"